# GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (CYLCHFAN RHAGLAN I GYLCHFAN HARDWICK, Y FENNI, SIR FYNWY) (CYFYNGIADAU A GWAHARDDIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2026

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, rhwng Rhaglan a'r Fenni, Sir Fynwy.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. gosod terfyn cyflymder o naill ai 40 mya neu 50 mya ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Bydd y terfynau cyflymder is mewn grym yn ystod cyfnod para'r gwaith, er y bydd eu hyd a'u lled yn amrywio;

ii. gwahardd beicwyr rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Bydd hyn mewn grym yn ystod cyfnod para'r gwaith;

iii. gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgwylir y bydd y ffordd ar gau yn ysbeidiol a bydd hyd a lled cau'r ffordd yn amrywio. Mae'r ffordd yn debygol o fod ar gau o ddydd Llun i ddydd Gwener, yn ôl yr angen.

Disgrifir y llwybrau eraill ar gyfer cerbydau a beicwyr yn yr Atodlen hefyd.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 12 Chwefror 2026. Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau dros dro yn weithredol o 00:01 o'r gloch ar 12 Chwefror hyd 24 Ebrill 2026, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

# THE A40 TRUNK ROAD (RAGLAN ROUNDABOUT TO HARDWICK ROUNDABOUT, ABERGAVENNY, MONMOUTHSHIRE) (TEMPORARY TRAFFIC RESTRICTIONS & PROHIBITIONS) ORDER 2026

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road between Raglan and Abergavenny, Monmouthshire.

The effect of the Order is to temporarily:

i. impose either a 40 mph or 50 mph speed limit on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Notice. The reduced speed limits will be in force for the duration of the works, though their extent will vary;

ii. prohibit cyclists from proceeding on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Notice. This will be in force for the duration of the works;

iii. prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Notice. The road closures are expected to be in force intermittently and their extent will vary. They are likely to operate Monday to Friday, as required.

The alternative routes for vehicles and cyclists are also described in the Schedule.

The Order comes into force on 12 February 2026. The temporary restrictions and prohibitions are expected to operate from 00:01 hours on 12 February until 24 April 2026, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**C WYNN**
Transport
Welsh Government

**YR ATODLEN**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Rhaglan hyd at ei chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Hardwick, y Fenni, Sir Fynwy.

Y Llwybrau Eraill

Y llwybr arall ar gyfer beicwyr sy'n teithio tua'r gorllewin yw ymuno â'r B4598 Clytha Road tua'r gorllewin wrth Gylchfan Rhaglan a pharhau tua'r gorllewin ar Hen Ffordd y Fenni a Groesonen Road i Gyfnewidfa Hardwick: i'r gwrthwyneb ar gyfer beicwyr sy'n teithio tua'r dwyrain.

Y llwybr arall ar gyfer traffig nad yw'n draffig traffordd ac sy'n teithio tua'r gorllewin yw mynd ar yr A40 tua'r dwyrain o Gylchfan Rhaglan i Gyfnewidfa Rhaglan, yr A449 tua'r de i Gyfnewidfa Coldra, yr A48 Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol Casnewydd tua'r gorllewin i Gyffordd Old Town Dock, yna i Gylchfan Grove Park a dilyn yr A4042 tua'r gogledd i Gylchfan Hardwick: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain.

Dylai traffig traffordd sy'n teithio tua'r gorllewin ddilyn rhan gyntaf y llwybr a ddisgrifir uchod ond o Gyfnewidfa Coldra cymryd y gyffordd byrger a dilyn yr M4 tua'r gorllewin, ymadael wrth Gyffordd 25a (Grove Park) a dilyn yr A4042 tua'r gogledd i Gylchfan Hardwick: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain.

**SCHEDULE**

The length of the trunk road that extends from its junction with the western side of Raglan Roundabout to its junction with the eastern side of Hardwick Roundabout, Abergavenny, Monmouthshire.

Alternative routes

The alternative route for westbound cyclists is to join the westbound B4598 Clytha Road at Raglan Roundabout and continue westbound via the Old Abergavenny Road and Groesonen Road to Hardwick Interchange: vice versa for eastbound cyclists.

The alternative route for non-motorway westbound vehicles is via the eastbound A40 from Raglan Roundabout to Raglan Interchange, the southbound A449 to Coldra Interchange, westbound A48 Newport Southern Distributor Road to Old Town Dock Junction, then to Grove Park Roundabout and follow the northbound A4042 to Hardwick Roundabout: vice versa for eastbound vehicles.

Westbound motorway traffic should follow the first part of the route described above but from Coldra Interchange take the hamburger junction and follow the westbound M4, exit at Junction 25a (Grove Park) and follow the northbound A4042 to Hardwick Roundabout: vice versa for eastbound traffic.